| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| Dyddiad: | **19 Medi 2018** |
| Teitl: | **Derbyn Polisïau - Data Cydymffurfiaeth Blwyddyn 1** |
| Adroddiad gan: | **Lynn Ball,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro)** |
| Pwrpas yr adroddiad: | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am y lefelau cydymffurfiaeth ar draws y Cyngor.** |

## 1.0 Cefndir

Mae system rheoli polisïau'r Cyngor - y Porth Polisi - wedi bod ar gael i staff fel llyfrgell electronig ers mis Tachwedd 2016. Fe gychwynnodd y gofynion o ran derbyn polisïau ar 24 Ebrill 2017.

Adroddwyd i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2017 y byddai'r Porth Polisi yn rhoi sicrwydd i'r Uwch Berchennog Risgiau Gwybodaeth ('SIRO') bod staff yn darllen, yn deall ac yn derbyn polisïau Llywodraethu Gwybodaeth allweddol yn ffurfiol.

Daeth y polisïau canlynol yn rhan o'r broses clicio i dderbyn rhwng Ebrill 2017 a Mehefin 2018, fel y'u pennwyd gan Uwch Dim Arweinyddiaeth y Cyngor (UDA):

1. Polisi Desg Glir
2. Polisi Rheoli Cofnodion
3. Polisi Dosbarthiadau Data
4. Polisi Rheoli Absenoldeb
5. Polisi Offer Sgrin Arddangos
6. Iechyd a Diogelwch: Rolau a Chyfrifoldebau
7. Safonau'r Iaith Gymraeg

Mae **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am lefelau cydymffurfiaeth o ran y polisïau uchod ar gyfer pob gwasanaeth ac eithrio'r gwasanaeth Dysgu. Fe wnaed penderfyniad ym mis Ebrill 2017 i beidio cynnwys y gwasanaeth Dysgu gan fod grŵp TG y gwasanaeth yn cynnwys staff ysgolion nad oedd y broses yn berthnasol iddynt. Mae'r mater yma bellach wedi'i ddatrys ac fe gafodd y gwasanaeth Dysgu ei gynnwys yn y broses gorfforaethol am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2018, pryd y gwnaed Polisi Diogelu Data'r Cyngor ar gael i'w dderbyn.

Bydd y saith polisi cyntaf y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn cael eu dynodi'n raddol i'r gwasanaeth Dysgu dros y misoedd i ddod.

Mae'r data sydd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael ar **24 Gorffennaf 2018.**

## 2.0 Monitro cydymffurfiaeth

Cyflwynir adroddiadau cydymffurfiaeth fesul gwasanaeth i'r UDA ar ddiwedd y cyfnodau o 6 wythnos a roddir i dderbyn pob polisi. Mae'r holl bolisïau'n parhau i fod ar gael i'w derbyn ar ôl y dyddiadau cau, fel bod defnyddwyr sydd heb gwblhau polisi ar amser, beth bynnag fo'r rheswm, yn gallu dal i fyny. Mae'r e-byst atgoffa wythnosol a gynhyrchir gan y Porth Polisi'n rhestru'n awtomatig pob polisi sy'n weddill i bob defnyddiwr. Yn ychwanegol, gan fod y Porth yn diweddaru dros nos i gydweddu â Chyfeirlyfr Gweithredol y Cyngor, mae unrhyw ddefnyddwyr newydd yr ychwanegir at y grwpiau gwasanaeth TG yn cael eu cynnwys yn awtomatig o fewn 24 awr.

Hefyd, mae gan bob Pennaeth Gwasanaeth fynediad uniongyrchol at y Porth er mwyn monitro cydymffurfiaeth o fewn eu gwasanaethau eu hunain.

## 3.0 Lefelau Cydymffurfiaeth

Mae **Atodiad 1** yn gosod allan y lefelau cydymffurfiaeth ar gyfer pob polisi a ryddhawyd i'w dderbyn, a hynny ar draws y Cyngor yn ogystal â fesul gwasanaeth, hyd at 24 Gorffennaf 2018 (ac eithrio'r gwasanaeth Dysgu). 95% yw'r gydymffurfiaeth ar gyfartaledd ar draws y Cyngor ar gyfer pob polisi, o'i gymharu â chyfartaledd o 79% ar ddiwedd y cyfnodau derbyn o chwe wythnos a roddwyd ar gyfer pob polisi. Mae pob gwasanaeth wedi cyflawni lefelau uchel o gydymffurfiaeth, heblaw am y Gwasanaethau Oedolion.

Nododd y Pwyllgor hwn ar 21 Medi 2017 fod y Gwasanaethau Cymdeithasol a Dysgu ar ei hôl hi a gofynnwyd am sicrwydd bod camau'n cael eu cymryd i wella lefelau cydymffurfiaeth. Amlinellir y sefyllfa ddiweddaraf isod:

Mae cydymffurfiaeth yn y Gwasanaethau Plant wedi gwella'n sylweddol, gyda chyfradd ar gyfartaledd o 99% hyd at 24 Gorffennaf 2018, o'i gymharu â chyfartaledd o 57% ar ddiwedd y cyfnodau derbyn o chwe wythnos.

Cyflawnodd y Gwasanaethau Oedolion raddfa o 78% ar gyfartaledd hyd at 24 Gorffennaf 2018 sydd, er ar ei hôl i o'i gymharu â gwasanaethau eraill, yn welliant ar y cyfartaledd o 63% ar ddiwedd y cyfnodau derbyn chwe wythnos. Deellir bod nifer o staff y gwasanaeth sydd yn gweithio yn y gymuned sydd gydag e-byst o bosib hefo mynediad cyfyngedig i'w cyfrifon Cyfeirlyfr Gweithredol. Bydd angen i'r gwasanaeth ganfod maint unrhyw broblemau ac ystyried pa fesurau y gellir eu cymryd i gryfhau hygyrchedd er mwyn gwella cydymffurfiaeth.

Fel y nodir yn 1.0, mae'r gwasanaeth Dysgu wedi bod yn rhan o'r broses gorfforaethol ers Gorffennaf 2018 a bydd gofyn iddynt ddal i fyny trwy dderbyn y saith polisi cyntaf dros y misoedd i ddod. Bydd hyn yn ychwanegol at dderbyn yr ail gyfres o bolisïau fel y maent yn cael eu rhyddhau i'w derbyn.

## 4.0 Staff sydd heb fynediad at y Porth Polisi

Mae’r Porth Polisi’n dibynnu ar Gyfeirlyfr Gweithredol y Cyngor, a nawr yn cynnwys o gwmpas 1000 o ddefnyddwyr gweithredol, yn dilyn cynnwys y Gwasanaeth Dysgu.

Fe adnabuwyd dibyniaeth y Porth ar y Cyfeirlyfr Gweithredol fel gwendid o’r cychwyn ac mae’r Pwyllgor hwn wedi mynegi pryder nad yw staff sydd ddim yn defnyddio’r Cyfeirlyfr yn rhan o’r broses hon. Amcangyfrifir mai o gwmpas 709 o staff sydd heb gyfrifon Cyfeirlyfr Gweithredol, gan gynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | Gofalwyr Cartref; Ail-alluogi; Cartrefi Gofal; Gwasanaethau Dydd; Canolfan Byron, Byw â Chefnogaeth | 350 |
| Gwasanaethau Plant | Gweithwyr Cefnogol Arbenigol | 21 |
| Dysgu | Llyfrgelloedd, Gweithwyr Ieuenctid, Staff wrth gefn, Cymorthyddion Tymhorol, Glanhawr | 94 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Glanhawyr (yn cynnwys ysgolion), Cludiant Cymunedol Môn, Canolfannau Ailgylchu, Hyfforddwyr Beicio, Cylchwyliwyr Croesi’r Ffordd (ysgolion) | 204 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Glanhawyr, staff caffi, staff hyfforddi | 40 |

Mae gan y defnyddwyr sydd yn y Cyfeirlyfr Gweithredol ac sy’n meddu ar gyfrifon e-bost Drwyddedau ‘Microsoft Client Access’ sydd yn gostus. Yn ychwanegol, byddai darparu unrhyw offer TG er mwyn hwyluso mynediad, megis gliniaduron, gyda goblygiadau ariannol yn ogystal. Er ei bod yn dechnegol bosib i ddarparu cyfrifon o’r fath i’r holl staff, fe fyddai’n rhy gostus ac ni ystyrir hyn - nawr nac ychwaith yn y dyfodol rhagweladwy - i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol.

Mae modd hwyluso mynediad trwy greu cyfrifon unigol yn y Porth. Gyda’r opsiwn yma, byddai angen i bob defnyddiwr ddarparu eu cyfeiriadau e-bost personol i gael mynediad i’r system. Mae’r dull yma wedi’i ddefnyddio eisoes er mwyn hwyluso mynediad at system Gyflogau electronig y Cyngor. Roedd y broses yn llafurus o ran amser ac fe ddaethpwyd ar draws rhywfaint o amharodrwydd ar y cychwyn. Rhagwelir felly y byddai gofyn am gyfeiriadau e-bost personol er mwyn hwyluso’r drefn derbyn polisiau’n debygol o gael ymateb tebyg.

Daethpwyd i’r casgliad felly, er bod modd ehangu sgôp y Porth i gynnwys staff sydd ddim yn y Cyfeirlyfr Gweithredol, byddai angen adnoddau a chynllunio sylweddol sydd yn mynd tu draw i gylch gorchwyl gwreiddiol y system er mwyn gweithredu hyn.


Mae ymholiadau’n cael eu gwneud ar hyn o bryd gyda Chynghorau eraill Gogledd Cymru o ran eu trefniadau ar gyfer derbyn polisïau.

## 5.0 Argymhellion

Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r sefyllfa gyfredol.


**4 Medi 2018**

| 1 – Polisi Desg Glir | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 24 Ebrill 2017 | |
| Cyfanswm: | **893** | |
| Wedi cwblhau: | **849** | **95%** |
| Heb gwblhau: | **44** | **5%** |





| | | |
|---|---|---|
| **Adnoddau** (97) | | |
| Wedi cwblhau: | 97 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Busnes y Cyngor** (34) | | |
| Wedi cwblhau: | 34 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Gwasanaethau Oedolion** (175) | | |
| Wedi cwblhau: | 139 | 79% |
| Heb gwblhau: | 36 | 21% |
| **Gwasanaethau Plant** (120) | | |
| Wedi cwblhau: | 118 | 98% |
| Heb gwblhau: | 2 | 2% |
| **Prif Weithredwr** (5) | | |
| Wedi cwblhau: | 5 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (100) | | |
| Wedi cwblhau: | 100 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (154) | | |
| Wedi cwblhau: | 149 | 97% |
| Heb gwblhau: | 5 | 3% |
| **Tai** (133) | | |
| Wedi cwblhau: | 133 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (75) | | |
| Wedi cwblhau: | 74 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |

| **2 – Polisi Rheoli Cofnodion** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 19 Mehefin 2017 | |
| Cyfanswm: | **892** | |
| Wedi cwblhau: | **849** | **95%** |
| Heb gwblhau: | **43** | **5%** |





| | | |
|---|---|---|
| **Adnoddau** (97) | | |
| Wedi cwblhau: | 97 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Busnes y Cyngor** (34) | | |
| Wedi cwblhau: | 34 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Gwasanaethau Oedolion** (174) | | |
| Wedi cwblhau: | 141 | 81% |
| Heb gwblhau: | 33 | 19% |
| **Gwasanaethau Plant** (120) | | |
| Wedi cwblhau: | 117 | 98% |
| Heb gwblhau: | 3 | 2% |
| **Prif Weithredwr** (5) | | |
| Wedi cwblhau: | 5 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (100) | | |
| Wedi cwblhau: | 100 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (154) | | |
| Wedi cwblhau: | 149 | 97% |
| Heb gwblhau: | 5 | 3% |
| **Tai** (133) | | |
| Wedi cwblhau: | 131 | 98% |
| Heb gwblhau: | 2 | 2% |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (75) | | |
| Wedi cwblhau: | 75 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |

| **3 – Polisi Dosbarthiadau Data** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 14 Awst 2017 | |
| Cyfanswm: | **890** | |
| Wedi cwblhau: | **846** | **95%** |
| Heb gwblhau: | **44** | **5%** |





| | | |
|---|---|---|
| **Adnoddau** (97) | | |
| Wedi cwblhau: | 96 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Busnes y Cyngor** (34) | | |
| Wedi cwblhau: | 34 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Gwasanaethau Oedolion** (174) | | |
| Wedi cwblhau: | 138 | 79% |
| Heb gwblhau: | 36 | 21% |
| **Gwasanaethau Plant** (120) | | |
| Wedi cwblhau: | 119 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Prif Weithredwr** (5) | | |
| Wedi cwblhau: | 5 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (100) | | |
| Wedi cwblhau: | 100 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (154) | | |
| Wedi cwblhau: | 149 | 97% |
| Heb gwblhau: | 5 | 3% |
| **Tai** (132) | | |
| Wedi cwblhau: | 131 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (74) | | |
| Wedi cwblhau: | 74 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |

| **4 – Polisi Rheoli Absenoldeb** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 6 Tachwedd 2017 | |
| Cyfanswm: | **891** | |
| Wedi cwblhau: | **848** | **95%** |
| Heb gwblhau: | **43** | **5%** |





| | | |
|---|---|---|
| **Adnoddau** (97) | | |
| Wedi cwblhau: | 97 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Busnes y Cyngor** (34) | | |
| Wedi cwblhau: | 33 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Gwasanaethau Oedolion** (174) | | |
| Wedi cwblhau: | 140 | 80% |
| Heb gwblhau: | 34 | 20% |
| **Gwasanaethau Plant** (120) | | |
| Wedi cwblhau: | 119 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Prif Weithredwr** (5) | | |
| Wedi cwblhau: | 5 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (100) | | |
| Wedi cwblhau: | 100 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (154) | | |
| Wedi cwblhau: | 148 | 96% |
| Heb gwblhau: | 6 | 4% |
| **Tai** (132) | | |
| Wedi cwblhau: | 131 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (75) | | |
| Wedi cwblhau: | 75 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |

| **5 – Polisi Offer Sgrîn Arddangos** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 18 Ionawr 2018 | |
| Cyfanswm: | **890** | |
| Wedi cwblhau: | **846** | **95%** |
| Heb gwblhau: | **44** | **5%** |





| | | |
|---|---|---|
| **Adnoddau** (98) | | |
| Wedi cwblhau: | 98 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Busnes y Cyngor** (34) | | |
| Wedi cwblhau: | 34 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Gwasanaethau Oedolion** (174) | | |
| Wedi cwblhau: | 137 | 79% |
| Heb gwblhau: | 37 | 21% |
| **Gwasanaethau Plant** (120) | | |
| Wedi cwblhau: | 119 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Prif Weithredwr** (5) | | |
| Wedi cwblhau: | 5 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (100) | | |
| Wedi cwblhau: | 100 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (154) | | |
| Wedi cwblhau: | 149 | 97% |
| Heb gwblhau: | 5 | 3% |
| **Tai** (131) | | |
| Wedi cwblhau: | 130 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (74) | | |
| Wedi cwblhau: | 74 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |

| | | |
|---|---|---|
| **6 – Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol** | | |
| Dyddiad cychwyn: | 5 Mawrth 2018 | |
| Cyfanswm: | **888** | |
| Wedi cwblhau: | **834** | **94%** |
| Heb gwblhau: | **54** | **6%** |




| | | |
|---|---|---|
| **Adnoddau** (98) | | |
| Wedi cwblhau: | 97 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Busnes y Cyngor** (34) | | |
| Wedi cwblhau: | 33 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Gwasanaethau Oedolion** (174) | | |
| Wedi cwblhau: | 130 | 75% |
| Heb gwblhau: | 44 | 25% |
| **Gwasanaethau Plant** (120) | | |
| Wedi cwblhau: | 120 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Prif Weithredwr** (5) | | |
| Wedi cwblhau: | 5 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (100) | | |
| Wedi cwblhau: | 100 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (154) | | |
| Wedi cwblhau: | 147 | 95% |
| Heb gwblhau: | 7 | 5% |
| **Tai** (129) | | |
| Wedi cwblhau: | 128 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (74) | | |
| Wedi cwblhau: | 74 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |

| **7 – Safonau'r Iaith Gymraeg** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 30 Ebrill 2018 | |
| Cyfanswm: | **887** | |
| Wedi cwblhau: | **823** | **93%** |
| Heb gwblhau: | **64** | **7%** |




| **Adnoddau** (98) | | |
|---|---|---|
| Wedi cwblhau: | 97 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Busnes y Cyngor** (34) | | |
| Wedi cwblhau: | 34 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Gwasanaethau Oedolion** (174) | | |
| Wedi cwblhau: | 122 | 70% |
| Heb gwblhau: | 52 | 30% |
| **Gwasanaethau Plant** (120) | | |
| Wedi cwblhau: | 120 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Prif Weithredwr** (5) | | |
| Wedi cwblhau: | 5 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (100) | | |
| Wedi cwblhau: | 100 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (154) | | |
| Wedi cwblhau: | 144 | 93% |
| Heb gwblhau: | 10 | 7% |
| **Tai** (128) | | |
| Wedi cwblhau: | 127 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (74) | | |
| Wedi cwblhau: | 74 | 100% |
| Heb gwblhau: | - | - |